# Arolwg yr Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant (CPRR)

## A wnewch chi ein helpu â'n gwaith?

Mae'r daflen hon yn dweud wrthoch chi am arolwg yr Adolygiad Cyflym Amddiffyn Plant.

Mae hefyd yn dweud wrthoch chi pam ein bod ni am glywed eich barn chi, a'r math o bethau y byddwn ni o bosibl yn eu gofyn i chi.

### Pwy ydyn ni?

Tîm o arolygwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ydyn ni, sy'n edrych ar y ffordd y mae plant yn cael help i fod yn ddiogel yn eich ardal chi.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

### Pam eich bod chi wedi gofyn i mi gymryd rhan?

Rydyn ni am glywed eich barn chi am ba mor dda mae gweithwyr proffesiynol, fel gweithwyr cymdeithasol, athrawon, nyrsys ysgol a'r heddlu er enghraifft, yn eich helpu chi ac yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

### Beth fyddwn ni'n gofyn i chi ei wneud?

Cwblhewch ein harolwg ar-lein. Dim ond 10 munud y dylech chi gymryd i'w gwblhau. Os bydd angen help arnoch chi i gwblhau'r arolwg, gofynnwch i rywun rydych chi'n ymddiried ynddo i helpu.

### Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Ddim os nad ydych chi am wneud hynny. Rydyn ni am glywed eich barn ond gallwch chi ddewis a ydych chi am gwblhau'r arolwg hwn neu ddim.

### Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r pethau y byddwch chi'n eu dweud yn yr arolwg?

Mae'r pethau y byddwch chi'n eu dweud wrthon ni yn yr arolwg yn breifat. Does dim angen i chi roi eich enw nac unrhyw fanylion personol.

I gael gwybod mwy am y ffordd rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi, gallwch chi ddarllen ein Hysbysiad Preifatrwydd.

### Beth os bydda i am gwyno am AGC?

**Gallwch chi ysgrifennu:**
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy LL31 9RZ

**Gallwch chi ffonio ni:**
0300 790 0126
**Gallwch chi anfon e-bost:**
AGC.AwdurdodLleol@llyw.cymru
**Gallwch chi edrych ar ein gwefan:**
https://www.arolygiaethgofal.cymru

**Diolch am ein helpu ni.**